AMGUEDDFA CYMRU



**Adroddiad: Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6 Rhagfyr 2025**

Report: The Biodiversity and Resilience of Ecosystems Duty Environment (Wales) Act 2016 Part 1 - Section 6 December 2025

amgueddfa.cymru
museum.wales



# Cynnwys


**Cyflwyniad a Chyd-destun** 4

**Uchafbwyntiau, Canlyniadau Allweddol a Materion** 6

**Adroddiad ar Weithredu** 7

- Amcan NRAP 1 7
- Amcan NRAP 2 9
- Amcan NRAP 3 10
- Amcan NRAP 4 11
- Amcan NRAP 5 12
- Amcan NRAP 6 13

**Adolygiad o Ddyletswydd Adran 6** 14


# Contents


**Introduction and Context** 15

**Highlights, Key Outcomes and Issues** 17

**Action Report** 18

- NRAP Objective 1 18
- NRAP Objective 2 20
- NRAP Objective 3 21
- NRAP Objective 4 22
- NRAP Objective 5 23
- NRAP Objective 6 24


**Review of Section 6 Duty** 25

# Cyflwyniad a Chyd-destun

## Mae Amgueddfa Cymru yn elusen ac yn deulu o saith amgueddfa genedlaethol wedi'u lleoli ar draws Cymru.

Ein nod yw ysbrydoli pawb i fwynhau a dysgu drwy gasgliad cenedlaethol Cymru ac rydyn ni'n deall bod gan bawb rywbeth i'w gyfrannu trwy ein hamgueddfeydd, ein casgliadau a'n gwaith. Rydyn ni'n ymroi i sicrhau na fydd tlodi, anfantais gymunedol, iechyd gwael nac anabledd yn rhwystro pobl rhag cymryd rhan. Traddodiadau diwylliannol, ieithyddol a deallusol Cymru fydd sylfaen ein gwaith gyda phawb. Mae Strategaeth 2030 yn ein harwain wrth i ni ymgysylltu â chymunedau a'u cefnogi i greu Cymru well.


1. Amgueddfa Lechi Cymru
2. Amgueddfa Wlân Cymru
3. Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
4. Y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol
5. Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru
6. Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
7. Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru
8. Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru



Yn 2019, ymunodd Amgueddfa Cymru ag eraill i ddatgan argyfwng hinsawdd ac ecolegol byd-eang. Rydyn ni wedi ymrwymo i ddiogelu'n hamgylchedd naturiol, i wreiddio cynaliadwyedd ym mhopeth a wnawn ac i ddiogelu natur ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. O dan ddyletswydd Adran 6 (Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau) Deddf yr Amgylchedd (Cymru), mae Amgueddfa Cymru yn cael ei dosbarthu fel sefydliad Grŵp 2. Rydym yn:

- berchen ar, yn meddiannu ac yn rheoli tir, adeiladau a thiroedd;
- gyfrifol am swyddogaethau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth a rheoli tir;
- gallu dylanwadu ar eraill sy'n berchen ar dir ac yn ei reoli.

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr sy'n llywodraethu dyletswydd adran 6, tra bod cyfrifoldeb o ddydd i ddydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Datblygu Cynaliadwy. Mae'r Pwyllgor Datblygu Cynaliadwy yn adrodd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr drwy'r Pwyllgor Pobl, Adnoddau a Diwylliant. Mae'r Pwyllgor Datblygu Cynaliadwy yn cyfarfod bob chwarter, tra bod y pedwar is-bwyllgor ategol yn cyfarfod bob mis. Mae aelodau'r is-bwyllgorau Datblygu Cynaliadwy yn cynrychioli amrywiaeth o adrannau mewnol, gyda llawer ohonynt yn gwneud cyfraniad allweddol at ymchwilio, monitro, gwella a darparu addysg am fioamrywiaeth ac ecosystemau. Gweler delwedd 01 isod.




*Llun 01 – pedwar is-bwyllgor y Pwyllgor Datblygu Cynaliadwy a'r adrannau a gynrychiolir*

# Uchafbwyntiau, Canlyniadau Allweddol a Materion

Mae Amgueddfa Cymru yn gwneud cyfraniad pwysig mewn agweddau ymarferol a damcaniaethol ar ddiogelu a gwella bioamrywiaeth. Yn fewnol, mae ein curaduron Gwyddorau Naturiol yn gofalu am y casgliad cenedlaethol o sbesimenau Sŵoleg a Botaneg o Gymru a ledled y byd. Mae'r casgliad yn ffynhonnell gyfeirio hanfodol i lawer o ymchwilwyr ac academyddion ac fe'i defnyddiwyd i olrhain symudiadau rhywogaethau wrth i'r hinsawdd gynhesu. Ar ben hynny, mae curaduron y Gwyddorau Naturiol yn defnyddio'u sgiliau i gynnal arolygon rhywogaethau ym mhob un o'n hwyth safle ac yn gweithio gyda Chanolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol i gofnodi'r rhywogaethau anifeiliaid a phlanhigion a welwyd. Yn fwy cyffredinol, mae timau eraill Amgueddfa Cymru yn gweithio i addysgu ac ysbrydoli pobl am natur a chadwraeth, gan fanteisio ar y cyfle i gryfhau cysylltiadau cymunedol a gwella llesiant.

Er gwaethaf gostyngiad yn nifer y staff yn hanner cyntaf 2024, mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn ffocws strategol allweddol i Amgueddfa Cymru o hyd. Mae creu a chynnal rôl sy'n ymroddedig i gydlynu a llywio camau gweithredu ym maes cynaliadwyedd amgylcheddol yn ymrwymiad clir i'r bwriad hwn. Mae Amgueddfa Cymru yn parhau i ddarparu profiadau a chyfleoedd dysgu sy'n gysylltiedig â natur i staff, gwirfoddolwyr, ymwelwyr, grwpiau ysgol ac oedolion sy'n ddysgwyr ym mhob un o'n safleoedd. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio gwaith Amgueddfa Cymru yn y maes hwn yn fanylach.



# Adroddiad ar Weithredu

## Amcan NRAP 1

### Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth ymwreiddio yn y broses benderfynu ar bob lefel

Fel Amgueddfa Genedlaethol sy'n gweithio ledled Cymru, mae Amgueddfa Cymru nid yn unig yn rheoli ei thiroedd ei hun, ond hefyd yn cynnal gweithgareddau sylweddol yn ymwneud â bioamrywiaeth drwy waith ein hadrannau gan gynnwys Gwyddorau Naturiol ac Ymchwil, Addysg, Digwyddiadau, Arddangosfeydd ac ati.

Yn 2019, cyhoeddodd Amgueddfa Cymru *Strategaeth 2030* gyda chwe ymrwymiad yn cynnwys 'Blaenoriaethu'r Blaned'. Y nod sylfaenol oedd 'Diogelu ac adfer natur a'r amgylchedd'. Ers hynny, rydyn ni wedi cefnogi hyn drwy greu rôl sy'n ymroddedig i gynaliadwyedd amgylcheddol yn 2021. Mae'r Pwyllgor Datblygu Cynaliadwy yn gosod targedau tymor canolig (2024-2027) gyda chynlluniau gweithredu cysylltiedig sy'n canolbwyntio ar ystod o bynciau, gan gynnwys monitro bioamrywiaeth, gweithgareddau ymgysylltu a lleihau effeithiau gweithgareddau bob dydd.

Mae Amgueddfa Cymru yn rhedeg System Rheoli Amgylcheddol sydd wedi'i hachredu i Gynllun Seren BS8555 ac sy'n cael ei harchwilio bob blwyddyn gan gorff ardystio allanol.

Yn rhan o'n proses gynefino, rydyn ni'n sicrhau bod dechreuwyr newydd yn ymwybodol o ymrwymiadau strategol y sefydliad ac o fodolaeth y Pwyllgor Datblygu Cynaliadwy. Yn ogystal, cynghorir dechreuwyr newydd am raglenni hyfforddi gorfodol, sy'n cynnwys Llythrennedd Carbon. Enillodd Amgueddfa Cymru achrediad fel Sefydliad Carbon-lythrennog Arian ym mis Mawrth 2023 ac rydym yn gweithio tuag at achrediad Aur. Mae dros 400 o unigolion wedi derbyn hyfforddiant Llythrennedd Carbon gan Amgueddfa Cymru ers ei sefydlu.

Gan adeiladu ar y broses gynefino, rydyn ni hefyd wedi canfod bod dull eco-lesiant yn fuddiol wrth ennyn ymgysylltiad â bioamrywiaeth. Rydym yn rhoi rhaglen llesiant staff ar waith gyda'r nod o gefnogi staff gydag eco-drallod a chefnogi ymgysylltiad hirdymor parhaus â bioamrywiaeth. Ariennir y rhaglen hon gan Gronfa Arloesi Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Dros y tair blynedd diwethaf (2023-2025), rydyn ni wedi codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a natur drwy:

- Sefydlu Tîm Gwyrdd o 32 o staff (ar draws pob gradd) yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd sy'n helpu i gynnal ein cynefinoedd bioamrywiol;
- Cynnig cyfle i staff ddysgu sgiliau newydd sy'n gysylltiedig â natur (e.e. arolygu rhywogaethau);
- Cynnal rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau cyhoeddus dan arweiniad Gwyddorau Naturiol, gan gynnwys:
    - Cynhadledd gyhoeddus flynyddol Cymru Anhysbys, a gynhelir yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac ar-lein bob hydref
    - Digwyddiad cyhoeddus rhad ac am ddim, Dathlu Natur, yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, a gynhelir bob haf ers 2023 gyda sawl sefydliad trydydd parti sy'n canolbwyntio ar natur yn bresennol;
    - Cynnal digwyddiadau cyhoeddus a chymunedol eraill yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd gydol y flwyddyn (teithiau, gweithdai, sgyrsiau, stondinau ymgysylltu, gweminarau ac ati).
- Cynnal seminarau;
- Cynnal digwyddiad deuddydd 'Our Broken Planet: Community of Practice' ar y cyd â'r Amgueddfa Hanes Natur yn Llundain i helpu gweithwyr proffesiynol y sector treftadaeth i gyfathrebu'r argyfwng hinsawdd â'u cynulleidfaoedd.
- Cyhoeddi a rhannu canlyniadau ymchwil bioamrywiaeth y tîm Gwyddorau Naturiol sy'n unigryw ac yn yn seiliedig ar y casgliadau, ym meysydd Sŵoleg, Botaneg a Daeareg;
- Cyflawni rhaglen eco-drallod a llesiant drwy grant #GROW Cronfa Arloesi Treftadaeth y Loteri Genedlaethol;
- Creu Teithiau Natur tywys a Theithiau Ymwybyddiaeth Ofalgar yn:
    - Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru;
    - Amgueddfa Wlân Cymru;
    - Amgueddfa Lechi Cymru;
- Creu gweithdai ac adnoddau yn rhan o broject Archwilio: Project Natur Drefol mewn partneriaeth ag Amgueddfa Hanes Natur, Llundain. Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd oedd canolfan Cymru ar gyfer y project hwn, gan gynnal gweithdai bioamrywiaeth lleol yn ein dôl drefol oedd yn gysylltiedig â'r cwricwlwm, gan gyrraedd 1,323 o ddisgyblion yn 2023-2024.



## Amcan NRAP 2

# Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o’r pwys mwyaf a’u rheoli’n well

Mae rhywogaethau a chynefinoedd o’r pwys mwyaf i’w gweld ar diroedd sawl safle Amgueddfa Cymru. Mae gennym gynrychiolaeth o 9 math o gynefinoedd â blaenoriaeth ar hyd a lled ein hystâd (Tabl 01).

Tabl 01 - Crynodeb o’r mathau o gynefin â blaenoriaeth sydd yn safleoedd Amgueddfa Cymru

| | Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd | Sain Ffagan | Amgueddfa Wlân Cymru | Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru | Y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol | Amgueddfa Genedlaethol y Glannau | Big Pit | Amgueddfa Lechi Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pyllau | | x | x | | | | x | |
| Afonydd a nentydd | | x | x | | | | x | x |
| Gwrychoedd | x | x | x | | | | | |
| Perllannau traddodiadaol | | x | | | | | | |
| Coed pori a thir parc | x | x | | | x | | | |
| Coetir ffawydd ac yw ar dir isel | | x | | | | | | |
| Coetir collddail cymysg ar dir isel | | x | x | | | | | |
| Dolydd ar dir isel (glaswelltir niwtral) | x | | x | | x | | | |
| Rhostir gorlwyni | | | | | | | x | |

Ar ein safleoedd ein hunain, dros y tair blynedd diwethaf (2023-2025) rydyn ni wedi bod yn:

- Annog pryfed peillio drwy:
    - Gymryd rhan yn ymgyrch Mai Di-dor bob blwyddyn ym mhob un o'r wyth safle;
    - Ychwanegu planhigion plwg at flodau gwyllt yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn 2025;

- Diogelu rhywogaethau a/neu gynefinoedd arbennig drwy:
    - Gynnal y cynefinoedd â blaenoriaeth ym mhob un o'n safleoedd;
    - Gosod dau dŷ draenogod yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru;
    - Cydymffurfio â gofynion ynghylch rhywogaethau a warchodir yn gyfreithiol (e.e. madfallod dŵr cribog, pob rhywogaeth ystlum) yn ystod gwaith adeiladu ar ein safleoedd.

### Amcan NRAP 3

## Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd

Ar ein safleoedd ein hunain, dros y tair blynedd diwethaf (2023-2025), rydyn ni wedi:

- Cynnal a rheoli ein dôl drefol, a grëwyd yn 2013 ar dir Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Mae hon yn ardal o gynefin â blaenoriaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dôl ar dir isel) ac mae'n hysbys ei bod yn cynnal o leiaf un rhywogaeth â blaenoriaeth (Gwyfyn Claergoch). Mae cegiden Mynwy (*Oenanthe pimpinelloides*), sy'n brin yng Nghymru, hefyd yn bresennol. Gall dolydd mewn lleoliadau trefol ffurfio ynysoedd neu rannau o goridorau gwerthfawr sy'n gwella cysylltedd cynefinoedd, gan gyfrannu at Rwydweithiau Trefol Gwydn. Mae rheoli'r ddôl drefol yn cynnwys trefn y torri gwair a hau cribell felen i annog mwy o amrywiaeth planhigion. Mae mwy o fanylion am gynnal y ddôl drefol yma: **Y Ddôl Drefol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**;

- Cefnogi menter Glasu Cathays, dan arweiniad Prifysgol Caerdydd gyda chyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, gyda digwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddus ar y Ddôl Drefol dan arweiniad staff a gwirfoddolwyr yr amgueddfa.

- Datblygu Gardd Liwurau Naturiol Amgueddfa Wlân Cymru. Mae paneli dehongli newydd ar y safle yn rhoi cyfle i ymwelwyr, staff a gwirfoddolwyr ddarganfod mwy am blanhigion lliwurau.

## Amcan NRAP 4

# Mynd i’r afael â’r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd

Dros y tair blynedd diwethaf (2023-2025), rydyn ni wedi:

- Defnyddio llai o blaladdwyr drwy ddatgan y dylai fod yn ddewis olaf yn unig;

- Cyflwyno gofynion penodol ar gyfer rheoli chwyn a rhywogaethau estron goresgynnol yng nghytundeb cynnal a chadw’r tir yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru;

- Sefydlu Fforwm Ailddefnyddio digidol lle gall staff hysbysebu a hawlio offer swyddfa dros ben, deunyddiau amgueddfa arbenigol a nwyddau traul;

- Cyflymu ymdrechion datgarboneiddio ar draws yr ystâd drwy:
    - Ddisodli systemau gwresogi, awyru ac aerdymheru (HVAC) yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau gydag opsiwn carbon isel
    - Disodli’r system wresogi nwy petrolewm hylifedig (LPG) yn Amgueddfa Wlân Cymru gyda phympiau gwres o’r aer
    - Disodli’r system wresogi olew yn adeilad Offis Fawr (yr ydym newydd ei gaffael) yn Amgueddfa Lechi Cymru gyda phympiau gwres o’r aer;
    - Disodli’r system wresogi nwy naturiol yn y Gweithdy Cadwraeth yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru gyda phympiau gwres o’r aer;
    - Disodli’r systemau gwresogi nwy naturiol mewn pedwar adeilad yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Genedlaethol gyda phympiau gwres o’r aer;

- Disodli’r holl faniau disel yn y fflyd gyda cherbydau trydan batri;

- Prynu cerbydau trydan batri arbenigol gan gynnwys beic cwad, llwythwr telesgopig a bws mini;

- Cynnwys systemau draenio trefol cynaliadwy penodedig yn y dyluniad ar gyfer Project Ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru;

- Gweithio tuag at Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer pob safle.

## Amcan NRAP 5

# Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro

O 2008-2009 ymlaen, cynhaliodd curaduron y Gwyddorau Naturiol arolygon cynefinoedd achlysurol ac arolygon rhestr rhywogaethau arbenigol ym mhob un o'r wyth safle. Mae'r nifer fawr o rywogaethau o'r pwys mwyaf yn golygu bod llawer yn bodoli yn un neu fwy o'n safleoedd. Cofnododd y curaduron Botaneg 450 a mwy o rywogaethau o blanhigion fasgwlaidd, dros 70 o fwsoglau a llysiau'r afu a thros 50 o gennau. Mae'r curaduron Sŵoleg wedi cofnodi dros 120 o rywogaethau o bryfed cop a chynghreiriaid, dros 70 o folysgiaid ac ymhell dros 100 o rywogaethau o bryfed. Mae'r rhain yn ychwanegol at yr holl gofnodion ychwanegol ac atodol a wnaed gan guraduron, staff eraill yr Amgueddfa a'r cyhoedd dros y blynyddoedd. Mae'r canfyddiadau'n cael eu rhannu â rheolwyr safle o bryd i'w gilydd.

Ar ein safleoedd ein hunain, dros y tair blynedd diwethaf (2023-2025), rydyn ni wedi:

- Cael canlyniadau chwiliadau data gan y Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol (LERCs) perthnasol i ddiweddaru ac ychwanegu at y cofnodion o'n harolygon bioamrywiaeth ein hunain o'n safleoedd. Mae'r rhain yn cynnwys clustogfeydd, felly maent hefyd yn cynyddu ein hymwybyddiaeth o rywogaethau sy'n bresennol ar dir cyfagos.

- Cynnal gwaith maes bioamrywiaeth arbenigol pellach yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru a Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru i gofnodi ac adnabod rhywogaethau ychwanegol, ac i helpu i ddatblygu dulliau newydd o fonitro yn y dyfodol.

- Cyflwyno cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol mewn partneriaeth â'r Amgueddfa Hanes Natur, Llundain i ddatblygu a monitro ardaloedd ychwanegol o gynefin naturiol gyda chymunedau lleol.

- Defnyddio data rhywogaethau i ddylanwadu ar waith project yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Amgueddfa Lechi Cymru a Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru.

## Amcan NRAP 6

# Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

Fel y nodwyd yn y Rhagymadrodd, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr sy'n llywodraethu dyletswydd adran 6, tra bod cyfrifoldeb o ddydd i ddydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Datblygu Cynaliadwy. Mae arbenigedd ecolegol ar gael yn fewnol ac rydyn ni'n ei ddefnyddio fel bo'r angen. Ar ben hyn, rydyn ni'n cynnwys ymgynghorwyr arbenigol allanol yn ôl y gofyn.

Dros y tair blynedd diwethaf (2023-2025), rydyn ni wedi cefnogi gweithredu bioamrywiaeth drwy:

- Ennill cyllid ar gyfer projectau a darparu'r adnodd i hwyluso'r projectau

- Gweithio gyda sefydliadau amgylcheddol lleol a chenedlaethol megis:
    - Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol
    - Plantlife
    - Buglife
    - Ymddiriedolaethau Natur Cymru

- Cefnogi mentrau lleol, cenedlaethol a byd-eang, megis:
    - Natur am Byth
    - Y Môr a Ni
    - Awr y Ddaear
    - Diwrnod Gweithredu Llythrennedd Carbon

- Cefnogi ymgysylltiad a morâl staff drwy ymwreiddio eco-lesiant:
    - Cynnig cymorth gydag eco-drallod
    - Cymunedau staff sy'n tyfu o arfer cynaliadwy
    - Diweddaru polisïau a dogfennau llesiant
    - Cynnig cyfleoedd llesiant cynaliadwy fel ymwneud â natur neu grefftau

# Adolygiad o Ddyletswydd Adran 6

Ar y cyfan, mae Amgueddfa Cymru yn cyflawni yn erbyn ein hamcanion o gynnal a gwella bioamrywiaeth yn ein safleoedd ac yn darparu gwasanaeth addysgol ac ymarferol i'r cyhoedd yng Nghymru, ein gwirfoddolwyr a'n staff. Bydd datblygu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth safle-benodol yn y tair blynedd nesaf yn nodi camau gweithredu pendant newydd sy'n ymwneud â'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sydd ar ein safleoedd.



# Introduction and Context

## Amgueddfa Cymru – Museum Wales is a charity, and a family of seven national museums located across Wales.

Our aim is to inspire learning and enjoyment through the national collection of Wales, and we recognise that everyone has something to contribute through our museums, collections and the work we do. We're committed to ensuring that poverty, social disadvantage, ill health and disability are not barriers to participation. Our work is rooted in the diversity of Welsh traditions of culture, language and thought. Our 2030 Strategy guides us as we engage and support communities in creating a better Wales.




1. National Slate Museum
2. National Wool Museum
3. National Waterfront Museum
4. National Collections Centre
5. St Fagans National Museum of History
6. National Museum Cardiff
7. National Roman Legion Museum
8. Big Pit National Coal Museum

In 2019, Amgueddfa Cymru joined others in declaring a global climate and ecological emergency. We are committed to safeguarding our natural environment, embedding sustainability in all that we do and protecting nature for future generations.
Under the section 6 duty (Biodiversity and Resilience of Ecosystems) of the Environment (Wales) Act, Amgueddfa Cymru is classed as a Group 2 organisation. We:

- Own, occupy and manage land, buildings and grounds;
- Have functions connected with biodiversity and land management;
- Can influence others who own and manage land.

Governance of the section 6 duty sits with the Board of Trustees and Chief Executive, while day to day responsibility is within the remit of the Sustainable Development (SD) Committee. The SD Committee reports to the Board of Trustees via the People, Resource and Culture Committee. The SD Committee meets quarterly, while the supporting four sub-committees meet monthly. Members of the SD sub-committees represent a variety of internal departments, many of whom play an active role in researching, monitoring, improving and providing education about biodiversity and ecosystems. See image 01 below.





*Image 01 - The four sub-committees of SD Committee and the departments represented*

# Highlights, Key Outcomes and Issues

Amgueddfa Cymru plays an important role in both practical and theoretical aspects of biodiversity protection and enhancement. Internally, our Natural Sciences curators look after the national collection of Zoology and Botany specimens from Wales and around the globe. The collection is a critical reference source for many researchers and academics and has been used to track movements of species as the climate warms. Additionally, the Natural Sciences curators use their skills to carry out species surveys at each of our eight sites and work with Local Environmental Record Centres to record sightings of animal and plant species. More broadly, other teams within Amgueddfa Cymru work to educate and inspire people about nature and conservation, taking the opportunity to strengthen community bonds and improve well-being.

Despite undergoing a reduction in staff numbers in the first half of 2024, environmental sustainability remains a key strategic focus for Amgueddfa Cymru. The creation and maintenance of a role dedicated to coordinating and driving action in the realm of environmental sustainability is a clear commitment to this intent. Amgueddfa Cymru continues to provide nature-related experiences and learning opportunities to staff, volunteers, visitors, school groups, adult learners at all our sites.  This report explores Amgueddfa Cymru's work in this area in more detail.



# Action Report

## NRAP Objective 1

### Engage and support participation and understanding to embed biodiversity throughout decision making at all levels

As a National Museum working across Wales, Amgueddfa Cymru not only manages its own grounds, but carries out significant activity relating to biodiversity through the work of our departments including Natural Sciences & Research, Learning, Events, Exhibitions etc.

In 2019, Amgueddfa Cymru published "*Strategy 2030*" where one of the six commitments was to "Put the Planet First". The underlying aim was to "help protect and restore nature and our environment". This has since been supported by the creation of a role dedicated to environmental sustainability in 2021. The SD Committee sets medium term targets (2024-2027) with associated action plans focusing on a range of topics, including biodiversity monitoring, engagement activities and minimising impacts from daily operational activities.

Amgueddfa Cymru operates an Environmental Management System that is accredited to BS8555 Seren Scheme and audited annually by an external certification body.

As part of our induction process, new starters are made aware of the organisation's strategic commitments and of the existence of the SD Committee. In addition, new starters are advised of mandatory training programmes, which include Carbon Literacy. Amgueddfa Cymru achieved accreditation as a Silver Carbon Literate Organisation in March 2023 and is working towards the Gold award. Over 400 individuals have received Carbon Literacy training from Amgueddfa Cymru since its inception.

Building on the induction process, we have also found that an eco-wellbeing approach is beneficial to engagement with biodiversity. We are implementing a staff wellbeing programme aimed at supporting staff with eco-distress and supporting sustained, long-term engagement with biodiversity. This programme is funded by the National Heritage Lottery Innovation Fund.

Over the past three years (2023-2025), we have increased awareness of biodiversity and nature by:

- Establishing a Green Team of 32 staff (across all grades) at National Museum Cardiff who assist with maintaining our biodiverse habitats;
- Offering staff the opportunity to learn new nature related skills (e.g. species surveying);
- Running an annual programme of Natural Sciences-led public events, including:
    - The annual “Unknown Wales” public conference, held at National Museum Cardiff and online each autumn
    - A free public “Celebration of Nature” event at St Fagans National Museum of History, held each summer since 2023 with several third-party nature-focused organisations in attendance;
    - Running other public and community events based at National Museum Cardiff throughout the year (tours, workshops, talks, engagement stands, webinars etc.).
- Holding seminars;
- Hosting a two-day ‘Our Broken Planet: Community of Practice’ event, in collaboration with the Natural History Museum, London to help heritage sector professionals from across the UK communicate the climate crisis to their audiences;
- Publishing and disseminating the results of Natural Sciences’ unique, collections-based biodiversity research in Zoology, Botany and Geology
- Delivering eco-distress and wellbeing programme through the National Heritage Lottery Innovation Fund “#GROW” grant
- Creating guided Nature Walks and Mindful Walks at:
    - St Fagans National Museum of History;
    - National Wool Museum;
    - National Slate Museum;
- Creating workshops and resources as part of the ‘Explore: Urban Nature Project’, in partnership with the Natural History Museum, London. National Museum Cardiff was the Wales hub for this project, delivering curriculum-linked local biodiversity workshops, reaching 1,323 pupils in 2023-2024, using our urban meadow.



## NRAP Objective 2

# Safeguard species and habitats of principal importance and improve their management

Species and habitats of principal importance can be found in the grounds of several of Amgueddfa Cymru's sites. Across the estate we have representation of 9 priority habitat types (Table 01).

Table 01 - Summary of priority habitat types across Amgueddfa Cymru sites

| | National Museum Cardiff | St Fagans Museum | National Wool Museum, Drefach | National Roman Legion Museum, Caerleon | National Collections Centre, Nantgarw | National Waterfront Museum, Swansea | Big Pit National Coal Museum | National Slate Museum, Llanberis |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ponds | | X | X | | | | X | |
| Rivers and streams | | X | X | | | | X | X |
| Hedgerows | X | X | X | | | | | |
| Traditional orchards | | X | | | | | | |
| Wood pasture and parkland | X | X | | | X | | | |
| Lowland beech and yew woodland | | X | | | | | | |
| Lowland mixed deciduous woodland | | X | X | | | | | |
| Lowland meadows (neutral grassland) | X | | X | | X | | | |
| Dwarf shrub heathland | | | | | | | X | |

On our own site grounds, over the past three years (2023-2025), we have:

- Encouraged pollinators by:
  - Taking part in No Mow May each year at all eight sites;
  - Supplementing wildflowers with plug plants at National Museum Cardiff and St Fagans National Museum of History in 2025;

- Safeguarded special species and / or habitats by:
  - Maintaining the priority habitats at each of our sites;
  - Installing two hedgehog houses at National Roman Legion Museum;
  - Complying with requirements regarding legally protected species (e.g. great crested newts, all bat species) during building works at our sites.

## NRAP Objective 3

## Increase the resilience of our natural environment by restoring degraded habitats and habitat creation

On our own site grounds, over the past three years (2023-2025), we have:

- Maintained and managed our urban meadow, created in 2013 in the grounds of National Museum Cardiff. This is an area of priority habitat under the Environment (Wales) Act 2016 (lowland meadow) and is known to host at least one priority species (Cinnabar Moth). Corky-fruited water dropwort (*Oenanthe pimpinelloides*) which is rare in Wales, is also present. Meadows in urban settings can form valuable islands or parts of corridors improving habitat connectivity, contributing to Resilient Urban Networks. Management of the urban meadow includes the mowing regime and the sowing of Yellow Rattle to encourage higher plant diversity. More details on its maintenance are here: **The Urban Meadow at National Museum Cardiff**;

- Supported the Greening Cathays initiative, led by Cardiff University with funding from the UK Government Shared Prosperity Fund, with public events and activities on the Urban Meadow led by museum staff and volunteers.

- Developed the Natural Dye Garden at the National Wool Museum. New on-site interpretation panels allow visitors, staff and volunteers to discover more about natural dye plants.

## NRAP Objective 4

# Tackle key pressures on species and habitats

Over the past three years (2023-2025), we have:

- Reduced pesticide use by declaring it a last resort;
- Introduced specific requirements for controlling weeds and invasive non-native species into the grounds' maintenance contract at St Fagans National Museum of History;
- Established a digital "Reuse Forum" where staff can advertise and claim surplus office equipment, specialised museum materials and consumables;
- Accelerated decarbonisation efforts across the estate by:
    - Replacing heating, ventilation and air conditioning (HVAC) systems at National Waterfront Museum with the low carbon option
    - Replacing the liquefied petroleum gas (LPG) heating system at National Wool Museum with air source heat pumps
    - Replacing the oil heating system at the newly-acquired Offis Fawr building at National Slate Museum with air source heat pumps;
    - Replacing the natural gas heating system at the Conservation Workshop at Big Pit National Coal Museum with air source heat pumps;
    - Replacing the natural gas heating systems at four buildings in St Fagans National Museum of History with air source heat pumps;
- Replaced all diesel vans in the fleet with battery electric alternatives;
- Purchased specialist battery electric vehicles including a quad bike, telehandler and minibus;
- Specified sustainable urban drainage systems in the design for the Redevelopment Project at National Slate Museum;
- Worked towards a Biodiversity Action Plan for each site.

## NRAP Objective 5

# Improve our evidence, understanding and monitoring

From 2008-2009 onwards, occasional habitat surveys and specialised species inventory surveys have been carried out at all eight sites by Natural Sciences curators. The large number of species of principal importance mean that many occur at one or more of our sites. In total, over 450 species of vascular plants, over 70 mosses and liverworts, and over 50 lichens have been recorded by the Botany curators. Over 120 species of spiders and allies, over 70 molluscs, and well over 100 species of insect have been recorded by Zoology curators. These are in addition to the large number of extra and incidental records made by curators, other Museum staff, and the visiting public over the years. The findings are periodically shared with site managers.

On our own site grounds, over the past three years (2023-2025), we have:

- Obtained the results of data searches by the relevant Local Environmental Records Centres (LERCs) to update and add to the records from our own biodiversity surveys of our sites. These include buffer zones so also increase our awareness of species present on adjacent land.

- Conducted further, specialist biodiversity fieldwork at Big Pit National Coal Museum and St Fagans National Museum of History to record and identify additional species, and to help develop new methods of monitoring in future.

- Put in a bid to the National Heritage Lottery Fund in partnership with the Natural History Museum, London to develop and monitor additional areas of natural habitat with local communities.

- Used species data to influence project work at St Fagans National Museum of History, National Slate Museum and Big Pit National Coal Museum.

## NRAP Objective 6

# Put in place a framework of governance and support for delivery

As stated in the Introduction, governance of the section 6 duty sits with the Board of Trustees and Chief Executive, while day-to-day responsibility is within the remit of the Sustainable Development (SD) Committee. Ecological expertise is available internally and drawn upon when needed. Supplementing this, external specialist consultants are engaged as required for capital project work and building maintenance work.

Over the past three years (2023-2025), we have supported biodiversity action through:

- Gaining funding for projects and providing the resource to facilitate the projects

- Working with local and national environmental organisations such as:
    - Local Environmental Record Centres (LERCs)
    - Plantlife
    - Buglife
    - Wildlife Trusts Wales

- Supporting local, national and global initiatives, such as:
    - Natur am Byth
    - Y Môr a Ni
    - Earth Hour
    - Carbon Literacy Action Day

- Supporting staff engagement and morale through embedding eco-wellbeing:
    - Offering support with eco-distress
    - Growing staff communities of sustainable practice
    - Updating well-being policies and documents
    - Offering sustainable well-being opportunities such as nature or craft engagement

# Review of Section 6 Duty

Overall, Amgueddfa Cymru is delivering against our objectives of maintaining and enhancing biodiversity at the sites we own and providing an educational and practical service to the Welsh public, our volunteers and staff. The development of site-specific Biodiversity Action Plans in the coming three years will set out new tangible actions relating to habitats and species found on our sites.



AMGUEDDFA CYMRU

amgueddfa.cymru
museum.wales